## Rhaglen Gwirfoddolwyr Cefn Gwlad Cyngor Sir Powys

Annwyl glerc

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu am lansiad trefniadau gweithio newydd ar gyfer rhaglen Gwirfoddolwyr Cefn Gwlad Powys.

Mae'r rhaglen yn rhan bwysig o reoli a chynnal hawliau tramwy a mannau gwyrdd cyhoeddus y sir, y tu allan i ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Fe'i goruchwylir gan dîm Mynediad a Hamdden Cefn Gwlad Cyngor Sir Powys. Mae angen y newidiadau i ganiatáu i'n gwirfoddolwyr a'n cymunedau ein cefnogi'n fwy effeithiol.

Mae'r trefniadau newydd yn seiliedig ar ardaloedd lleol 'Powys Gynaliadwy'. Hoffai aelodau o dîm Mynediad a Hamdden Cefn Gwlad y Cyngor gyfarfod â chynrychiolwyr y Cyngor Tref a Chymuned o bob ardal leol am drafodaeth anffurfiol dros y tri mis nesaf, i:

- roi manylion am y rhaglen
- ddechrau trafod eich syniadau ar gyfer cynnal a chadw a gwella llwybrau yn eich ardal leol.

Fel clwstwr ardal, a fyddech cystal â darparu ychydig o opsiynau am ddyddiad i gwrdd am drafodaeth gyda ni? Os gallwch awgrymu lleoliad addas yn agos at eich ardal chi, byddai hynny'n wych.

Cysylltwch â rights.of.way@powys.gov.uk am drefniadau.

**Trosolwg o'r rhaglen**

Mae rhaglen Gwirfoddolwyr Cefn Gwlad wedi bod ar waith ers dros 20 mlynedd, gyda llawer o unigolion yn rhoi amser i helpu i gynnal a gwella hawliau tramwy cyhoeddus a mannau gwyrdd ledled y sir.

Wrth i awydd y cyhoedd i gael mynediad at gefn gwlad dyfu, mae rôl gwirfoddolwyr wedi dod yn bwysicach fyth wrth ddarparu cyfleoedd hamdden awyr agored i'n trigolion eu mwynhau ac i gefnogi'r economi ymwelwyr.

Bydd y rhaglen yn parhau i weithio gyda deiliaid tir i'w cefnogi i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol i sicrhau bod hawliau tramwy cyhoeddus yn agored ac yn hawdd i'w defnyddio ar draws eu tir.

## Powys County Council Countryside Volunteer Programme

Dear clerk

I am writing to let you know about the launch of a new working arrangements for the Powys Countryside Volunteer programme.

The programme is an important part of managing and maintaining the county's public rights of way and greenspaces, outside the Bannau Brycheiniog National Park area. It is overseen by Powys County Council's Countryside Access and Recreation team. The changes are needed to allow our volunteers and communities to support us more effectively.

The new arrangements are based on 'Sustainable Powys' locality areas. Members of the Council's Countryside Access and Recreation team would like to meet with Town and Community Council representatives from each locality area for an informal discussion over the next three months, to:

- provide detail of the programme
- start to discuss your ideas for path maintenance and improvement in your locality area.

As a locality cluster, please could you collectively provide a few date options for an in-person discussion with us? If you can suggest a suitable venue close to your area, that would be great.

Please contact rights.of.way@powys.gov.uk for arrangements.

**Programme overview**

The Countryside Volunteer programme has been in place for over 20 years, with many individuals giving time to help maintain and improve public rights of way and greenspace across the county.

As public desire to access the countryside grows, the role of volunteers has become ever more important in providing outdoor recreation opportunities for enjoyment by our residents and to support the visitor economy.

The programme will continue to work with landholders, to support them in meeting their legal duties to ensure public rights of way are open and easy to use across their land.

Powys

**Sut y bydd yn gweithio**

- Wedi'u strwythuro o amgylch 13 ardal lleol Powys Gynaliadwy yn y sir, bydd pob un o'r grwpiau gwirfoddol yn gweithio ar ran clwstwr o gymunedau (gweler map ardal amgaeedig)
- Ym mhob ardal bydd nifer o rolau gwirfoddolwyr, o leiaf un Trefnydd Rhaglen Cefn Gwlad Gwirfoddol (i gydlynu gweithgaredd ar draws yr ardal), ac un neu fwy o Oruchwylwyr Gwaith Cefn Gwlad Gwirfoddol i oruchwylio'r diwrnodau gwaith ymarferol gwirfoddol. Efallai y bydd rhai gwirfoddolwyr hefyd am gael eu hyfforddi i gysylltu â thirfeddianwyr.
- Er y bydd gwirfoddolwyr yn ymuno â grŵp yn eu hardal leol, bydd gan bawb yr opsiwn i weithio gyda grwpiau gwirfoddol eraill, os dymunant. Bydd swyddogion y Cyngor Sir yn cefnogi'r rhaglen, gan gyflawni tasgau arbenigol a chynorthwyo gyda logisteg i alluogi grwpiau gwirfoddol i weithio heb oruchwyliaeth swyddogion gymaint â phosibl.
- Bydd ein gwaith yn canolbwyntio ar raglen waith flynyddol y cytunwyd arni ar gyfer pob grŵp lleol.

**Cymorth a Chyngor**

Gwerthfawrogwn eich cefnogaeth i sicrhau bod mynediad parhaus a chynaliadwy i gefn gwlad ar gyfer ein trigolion a'n hymwelwyr. Credwn y gall cyfathrebu a chydweithredu cynnar sicrhau bod llwybrau'n parhau i fod ar gael i bawb.

Mae'r tîm Mynediad a Hamdden Cefn Gwlad yma i gynorthwyo a darparu cyngor ymarferol. Mae croeso i chi gysylltu â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen eglurhad pellach arnoch.

**How will it work**

- Structured around the Sustainable Powys 13 locality areas in the county, each of the volunteer groups will work on behalf of a cluster of communities (see enclosed locality map)
- In each locality there will be a number of volunteer roles, at least one Volunteer Countryside Programme Organiser (to coordinate activity across the locality), and one or more Volunteer Countryside Works Supervisors to oversee the practical volunteer work days. Some volunteers may also wish to be trained to carry out landowner liaison.
- While volunteers will join a group in their locality area, everyone will have the option to work with other volunteer groups, if they wish. County Council officers will support the programme, carrying out specialist tasks and assisting with logistics to enable volunteer groups to work without officer supervision as much as possible.
- Our work will be centred around an agreed annual work programme for each locality group.

**Support and Advice**

We appreciate your support in ensuring ongoing, sustainable delivery of access to the countryside for our residents and visitors. We believe that early communication and cooperation can ensure that paths remain accessible for everyone.

The Countryside Access and Recreation team is here to assist and provide practical advice. Please do not hesitate to contact us if you have any questions or need further clarification.

Yn gywir / Yours sincerely

**Sian Barnes**

Arweinydd Proffesiynol Mynediad i Gefn Gwlad a Hamdden/ Professional Lead
Gwasanaethau Cefn Gwlad Cyngor Sir Powys / Powys County Council Countryside Access and Recreation

*Amgaead/ Enclosure: Map o'r ardaloedd lleol / Map of locality areas*
*Llawlyfr Gwirfoddolwyr / Volunteer Handbook*